GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

# Cynllun Strategol

2016 - 2021

VOBIS PRODESSE NECESSARIO TEMPORA

www.mawwfire.gov.uk

# Cynnwys


**Cipolwg ar ein Gweledigaeth, ein Hamcanion a'n** ***Blaenoriaethau Strategol*** 2
**Rhagair** 3

**Cyflwyniad** 4
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 5
Y Bwrdd Gweithredol 5
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 6

**Ein Gofynion Deddfwriaethol**
Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub 2012 ymlaen 7
Y Rhaglen Lywodraethu 7
Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus 7
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 8
Pwyllgor Materion Cenedlaethol 8
Cydnerthedd Cenedlaethol 8
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cymru Gyfan 9
Safonau'r Gymraeg 9

**Pam Rydym yn Cynllunio**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 10
Cynllun Strategol 10
Cynlluniau Gwella Blynyddol 11
Asesiadau o Berfformiad Blynyddol 11
Cynllun Gwella Blynyddol 11

**Ein Perfformiad**
Ein Dangosyddion Perfformiad 12

**Ein Gweledigaeth a'n Blaenoriaethau**
Ein Hamcanion Strategol 13

**Ein Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol**
Cydweithio 14
Arloesedd 14
Gwella'r Modd y Darperir Gwasanaethau 14
Grymuso ein Staff 14
Gwneud gwell defnydd o'n Hasedau a'n Hadnoddau 15
Cynaliadwyedd 15
Cyfathrebu ac Ymgysylltu 15

# Cipolwg ar ein Gweledigaeth, ein Hamcanion a'n - Blaenoriaethau Strategol

**Ein Gweledigaeth -**

*Bod gyda'r gorau yn y byd am ddarparu Ymateb Brys a Diogelwch Cymunedol*

## Blaenoriaethau Strategol 2016 - 2021

### Cydweithio

Byddwn yn gweithio gydag eraill i ddarparu ein gwasanaethau mewn ffordd well, mwy costeffeithiol ac effeithlon.

### Arloesedd

Byddwn yn datblygu ein gwasanaethau drwy arloesedd er mwyn cynnal a gwella'r ffordd mae ein Gwasanaeth yn diwallu anghenion presennol ein cymunedau a'u hanghenion yn y dyfodol.

### Gwella'r Modd y Darperir Gwasanaethau

Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn diwallu anghenion y bobl sy'n gweithio, yn byw ac yn ymweld â'n cymunedau er mwyn eu gwneud yn fw diogel.

### Grymuso ein Staff

Byddwn yn sicrhau bod gennym weithlu iach a diogel sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau cywir.

### Gwella ein Hasedau a'n Defnydd o Adnoddau

Byddwn yn gwella ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n hasedau yn y ffordd fwyaf costeffeithiol, cynaliadwy ac ecogyfeillgar.

### Cynaliadwyedd

Byddwn yn anelu at leihau'r effaith amgylcheddol a gaiff ein gwasanaethau ar yr amgylchedd.

### Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Byddwn yn anelu at wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n staff, rhanddeiliaid a phartneriaid.

**Rydym yn ymrwymedig i wneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef.**

Rydym wedi datblygu saith blaenoriaeth strategol y bydd ein gweithgareddau yn canolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'n cymunedau.

# Rhagair



**Fel Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae'n bleser gen i gyflwyno ein Cynllun Strategol ar gyfer 2016-21.**

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gyda'r gorau yn y byd am ddarparu ymateb brys a diogelwch cymunedol. Mae'r Cynllun Strategol hwn yn gosod ein cyfeiriad strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf a chaiff ei ategu gan ein Cynlluniau Gwella Blynyddol. Er bod y ddogfen hon yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd, bydd yn cael ei hadolygu'n barhaus i sicrhau bod ein hamcanion a'n blaenoriaethau'n parhau i fod yn addas at y diben.

Fel Awdurdod Tân ac Achub rydym yn atebol yn gyhoeddus am eich Gwasanaeth Tân ac Achub, gan bennu ei gyllideb a'i flaenoriaethau. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi wynebu heriau ariannol nas gwelwyd erioed o'r blaen a gwyddom y bydd trafodaethau ynghylch y gyllideb yn parhau i chwarae rhan ganolog yn y penderfyniadau a wnawn fel Awdurdod dros y blynyddoedd i ddod.

Mae angen i ni archwilio ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau, ynghyd â sicrhau bod diogelwch a llesiant ein cymunedau wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym am ddarparu gwerth am arian, gan wario arian trethdalwyr yn ddoeth ac ar y pethau a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.




Cynghorydd Wynne Evans
Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cyflwyniad

**Mae'n bleser gen i gyflwyno ein Cynllun Strategol ar gyfer 2016-2021, sy'n nodi ein hymrwymiad i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru dros y pum mlynedd nesaf.**

Oeddech chi'n gwybod fel Gwasanaeth:-




Fy ngweledigaeth yw Gwasanaeth sy'n anelu at fod gyda'r gorau yn y byd am ddarparu Ymateb Brys a Diogelwch Cymunedol.

Rydym eisoes yn dda iawn at yr hyn a wnawn. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi ymateb i 3,075 o danau yn y cartref, dros 5,500 o wrthdrawiadau traffig ffyrdd ac wedi cynnal 107,000 o Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Mae ein diffoddwyr tân ar alwad hefyd wedi ymateb i 7,536 o alwadau meddygol brys mewn cerbydau cyd-ymatebwyr, sef cynnydd o 40% ers 2006/07.

Rydym wedi cyflawni hyn oll yn ogystal â gwireddu arbedion o £7.5 miliwn, sef tua 17% o'n cyllideb gyffredinol (ers 2005), heb effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau. Fodd bynnag, ni ellir osgoi'r ffaith y bydd yr hinsawdd ariannol rydym yn gweithredu o'i mewn yn parhau i roi pwysau ychwanegol ar lefel y gwasanaeth a ddarparwn ar hyn o bryd ac yn ymestyn ein hadnoddau hyd yn oed ymhellach.

Fy ymrwymiad i chi felly yw addasu i'r heriau hyn mewn ffordd gadarnhaol drwy gydweithio â gwasanaethau eraill. Credaf mai cydweithio yw dyfodol y gwasanaethau brys, gan ein galluogi i wella'r ffordd rydym yn gweithio, yn rhannu ein pobl a'n hadnoddau ariannol ac yn achub mwy o fywydau yn y pen draw. Rwyf hefyd yn ymrwymedig i ddod o hyd i atebion arloesol i gynhyrchu incwm, a sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer llesiant ein cymunedau. Dim ond drwy gyflogi'r bobl iawn y gallwn ddarparu Gwasanaeth gwell a llwyddiannus. Rwyf am sicrhau'r cyflogeion gorau sy'n cynrychioli ein cymunedau, eu bod wedi'u hyfforddi yn y ffordd gywir i sicrhau eu diogelwch a bod ganddynt yr offer gorau er mwyn iddynt weithredu yn ôl y safonau uchaf.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, byddaf yn gweithio'n agos â Thîm Gweithredol ac Awdurdod Tân ac Achub y Gwasanaeth er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Rwy'n cydnabod hefyd bod gwrando ar eich safbwyntiau yn hanfodol er mwyn i ni barhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon a gwell i'ch cadw chi a'ch teuluoedd yn ddiogel.

Mae llwyddiant yn ymwneud â gwella diogelwch ein cymunedau a'n staff, a byddaf yn sicrhau, dros y pum mlynedd nesaf, y byddwn yn cyflawni'r amcanion strategol a nodir yn y cynllun hwn er mwyn sicrhau'r llwyddiant hwn.



**Chris Davies** Chief Fire Officer

# Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwmpasu

**Crëwyd y Gwasanaeth yn 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, ar ôl uno brigadau tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg.**

Crëwyd y Gwasanaeth yn 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, ar ôl uno brigadau tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg.

Mae'r Gwasanaeth yn ymestyn ar draws bron i ddwy ran o dair o arwynebedd Cymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf o 4,500 milltir sgwâr (11,700 km2), sy'n cynnwys bron hanner morlin Cymru. Mae gennym 58 o orsafoedd ac rydym yn cyflogi 1,200 o staff. Ni yw'r trydydd Gwasanaeth Tân mwyaf yn y Deyrnas Unedig, ar ôl yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae amrywiaeth o risgiau yn ein hardal, yn amrywio o'r diwydiannau petrogemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn megis Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae cymuned ffermio fawr hefyd a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar draws yr ardal. Y rhain, ynghyd â morlin hir a dyfrffyrdd mewndirol, yw rhai o'r risgiau penodol a wynebir gan y Gwasanaeth.

## Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys uwch dîm reoli'r Gwasanaeth, sy'n cael ei arwain gan y Prif Swyddog Tân, a'i gefnogi gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân a thri Phrif Swyddog Cynorthwyol.



**Chris Davies**
Prif Swyddog Tân

Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig



**Mick Crennell**
Dirprwy Brif Swyddog Tân

Cyfarwyddwr Cyflawni



**Elizabeth Aitken**
Prif Swyddog Cynorthwyol

Cyfarwyddwr Adnoddau



**Rob Quin**
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Cyfarwyddwr Cymorth Gweithredol a Gwelliant

**Cewch fwy o wybodaeth am y Gwasanaeth a chyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol drwy fynd i'n gwefan.** www.tancgc.gov.uk

# Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r chwe Awdurdod Lleol o fewn ardal canolbarth a gorllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe).**


Maent yn atebol yn gyhoeddus ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i gynnal gwasanaeth tân ac achub ar gyfer ein cymunedau, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau canlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994
- Gorchymyn (Cynllun Cyfuno) Canolbarth a Gorllewin Cymru 1995
- Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol i Wasanaethau Tân ac Achub (amrywio) Cymru 2009
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 diwygiwyd 2011
- Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub

**Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth statudol i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu delio'n effeithiol â galwadau am gymorth os oes tân neu argyfwng arall yn codi.**

## Mae ein poblogaeth breswyl tua 900,000

| | Poblogaeth | Arwynebedd (cilomedr sgwâr) | Dwysedd poblogaeth |
|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 180,000 | 2400 | 78 |
| Ceredigion | 74,000 | 1750 | 42 |
| Castell-nedd a Phort Talbot | 156,000 | 580 | 269 |
| Sir Benfro | 120,000 | 1550 | 77 |
| Powys | 130,000 | 5100 | 26 |
| Abertawe | 230,000 | 370 | 624 |



**Mae'r boblogaeth yn chwyddo'n sylweddol i dros 1.5 miliwn o ganlyniad i dwristiaeth**

# Ein Gofynion Deddfwriaethol

## Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'n nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan  Awdurdodau Tân ac Achub ac yn creu'r sylfaen ar gyfer sicrhau a hyrwyddo gwelliant, effeithlonrwydd ac arloesedd. Mae'r Fframwaith hwn yn ymhelaethu ar y nod hollbwysig hwn ac yn nodi sut y dylai Awdurdodau Tân ac Achub fynd ati i'w gyflawni. Er mwyn gwneud hyn bydd angen newid yr hyn y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn ei wneud a'r modd y maent yn ei wneud. Mae Llywodraeth Cymru yn annog Awdurdodau Tân ac Achub i arwain prosesau eu hunain, fodd bynnag, mae angen i'r cyfeiriad gael ei strwythuro'n gliriach a'i rannu ar lefel Cymru gyfan.

***Gellir cael rhagor o fanylion yn y Fframwaith ar wefan Llywodraeth Cymru.***

---

## Y Rhaglen Lywodraethu

Y Rhaglen Lywodraethu yw cynllun gweithredu a map ffordd Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor presennol y Cynulliad. Mae pob un o'r awdurdodau'n gweithio tuag at ganlyniadau'r rhaglen, fel y rhestrir isod:

- Pobl iach sy'n byw bywydau cynhyrchiol mewn economi mwy llewyrchus ac arloesol.
- Cymunedau mwy diogel a chydlynol, gyda lefelau is o dlodi a mwy o gydraddoldeb.
- Amgylchedd cydnerth gyda defnydd mwy cynaliadwy'n cael ei wneud o'n hadnoddau naturiol.
- Cymdeithas gydag ymdeimlad hollbwysig o'i diwylliant a'i threftadaeth ei hun.

Y rhaglen hon yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru at fesur yr union effaith mae'n ei chael ar fywydau pobl, yn hytrach na phwysleisio faint o arian sy'n cael ei wario.

***I gael rhagor o wybodaeth am y Rhaglen Lywodraeth ewch i wefan Llywodraeth Cymru.***

---

## Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams)

Sefydlwyd Comisiwn Williams ym mis Ebrill 2013 gan y Prif Weinidog, i archwilio sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu llywodraethu ledled Cymru. Mae'n edrych yn galed, yn onest ac yn wrthrychol ar y rhai hynny sy'n atebol yn wleidyddol am ddarparu a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus, gyda golwg ar eu gwella nhw. Adroddodd y Comisiwn ei ganfyddiadau ar 20 Ionawr 2014, gyda chyfanswm o 62 o argymhellion ar draws amryw o feysydd. Gwnaethpwyd pedwar argymhelliad a oedd yn ymwneud yn benodol â'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adolygu ffiniau'r Awdurdodau rhwng Awdurdodau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru, i adlewyrchu ffin bwrdd iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.
- Mwy o gydweithio rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST).
- Gwella hyfforddiant ar gyfer Aelodau Etholedig.
- Mae'n rhaid ad-drefnu'r Awdurdodau Tân ac Achub, er mwyn craffu ar wasanaethau tân a'u prif swyddogion yn effeithiol.

***Ewch i wefan Llywodraeth Cymru i weld dogfen y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.***

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

O fis Ebrill 2016 mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus gyflawni datblygu cynaliadwy a gweithio tuag at y nodau a osodir o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). O fewn y Ddeddf, ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Diben y Ddeddf yw atgyfnerthu trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru gan sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

**Mae'r ddeddf yn gwneud y canlynol:-**

- gosod nodau ar gyfer gwella llesiant Cymru;
- cyflwyno dangosyddion cenedlaethol, a fydd yn mesur y gwahaniaeth sy'n cael ei wneud i lesiant Cymru;
- sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru i weithredu fel eiriolwr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
- rhoi byrddau gwasanaeth lleol a chynlluniau llesiant ar sail statudol ac yn symleiddio gofynion ar gyfer cynllunio cymunedol integredig.
- Yn unol â gofynion y Ddeddf, bydd yn ofynnol i ni gyfrannu at wella llesiant Canolbarth a Gorllewin Cymru er mwyn sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (yr egwyddor datblygu cynaliadwy).

***I gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – ewch i: http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/future-generations/?skip=1&lang=cy***

---

## Pwyllgor Materion Cenedlaethol

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol (NIC) yn 2012, gyda'r nod o wella cydweithio, y modd y darperir gwasanaethau a gwelliannau i wasanaethau ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'n cynnwys aelodau etholedig o Awdurdodau Tân Gogledd, De a Chanolbarth a Gorllewin Cymru a Swyddogion o Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd, De a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, gan weithio oddi fewn i drefniant gwirfoddol. Ffocws pennaf y Pwyllgor (NIC) yw optimeiddio cydweithio er mwyn darganfod arbedion, arbedion effeithlonrwydd a buddion economaidd, tra'n parhau i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae hefyd yn cynorthwyo'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddyrannu adnoddau, er mwyn ymateb i'r heriau ariannol y maent yn eu hwynebu.

***Ewch i wefan NIC http://www.nicwalesfire.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.***

---

## Cydnerthedd Cenedlaethol

O dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddyletswydd statudol i fod yn bartner allweddol yn y ddau Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (LRF) a leolir yn ardal y Gwasanaeth, sef Fforwm Lleol Cymru Gydnerth De Cymru a Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys. Mae'r fforymau hyn yn bartneriaethau amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr ar draws y sector cyhoeddus gan gynnwys y Gwasanaethau Brys, Awdurdodau Lleol, y GIG, Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill.

Nod yr LRF yw cynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau lleol ac argyfyngau trychinebus. Maent yn gweithio i nodi risgiau posibl a llunio cynlluniau brys er mwyn atal a lleihau effaith unrhyw ddigwyddiad o fewn eu cymunedau lleol.

***Ewch i wefan Cymru Gydnerth i gal rhagor o wybodaeth.***

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cymru Gyfan

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswyddau Penodol Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru lunio ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) ei hun ynghyd ag Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

Rydym yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn elfen allweddol o'n strategaeth gorfforaethol a'n cynllun busnes ac mae gennym bolisïau Cyfle Cyfartal i bob aelod, cyflogai a darpar gyflogai. Ni fydd ein strategaeth yn goddef prosesau, ymagweddau ac ymddygiadau sy'n cyfateb i wahaniaethu, yn cynnwys aflonyddu a bwlio drwy ragfarn, anwybodaeth, difaterwch a stereoteipio. Rydym yn gweithio tuag at amgylchedd sy'n rhoi cyfle cyfartal i bawb weithio, dysgu a byw, yn rhydd o wahaniaethu a rhagfarn.

Gallwch weld ein Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar ein gwefan.

***http://www.mawwfire.gov.uk/English/About/How-We-Do-It/Pages/Equality-and-Diversity.aspx***

## Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd safonau yn disodli'n raddol system bresennol cynlluniau'r Gymraeg a ddarparwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen 'Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg' ar 6 Ionawr 2014.

Diben y safonau yw:

- Sicrhau bod sefydliadau yn glir ynghylch eu dyletswyddau a sut y dylent wneud defnydd o'r Gymraeg.
- Helpu'r cyhoedd i ddeall sut y bydd sefydliadau yn gwneud defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru.
- Sicrhau bod y system o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn fwy cyson ar draws sefydliadau.
- Atgyfnerthu'r elfen gydymffurfio, h.y. bydd yn rhaid i sefydliadau weithredu'r safon.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rydym yn ymrwymedig i ddod yn sefydliad dwyieithog ac rydym wrthi'n gweithio tuag at bob un o'r safonau.

***I gael rhagor o wybodaeth am Safonau'r Gymraeg, ewch i wefan Comisiynydd y Gymraeg.***

# Pam Rydym yn Cynllunio

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi canllawiau cynllunio ar gyfer gwella ar gyfer pob un o'r Awdurdodau Lleol, yr Awdurdodau Tân ac Achub a'r Parciau Cenedlaethol.

Yn unol â'r canllawiau a nodwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, byddwn yn cyflawni gwelliannau yn seiliedig ar y canlynol:

- Gwneud cynnydd yn unol â'r amcanion
- Gwella ansawdd gwasanaethau
- Gwella argaeledd ein gwasanaethau
- Lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad at neu elwa ar wasanaethau
- Sicrhau datblygu cynaliadwy
- Gwella effeithlonrwydd
- Arloesedd

## Cynllun Strategol

Mae ein Cynllun Strategol pum mlynedd (2016-2021) yn nodi ein cyfeiriad a'n blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae ein Gwasanaeth yn chwarae rôl hanfodol yn y gymuned, a datblygwyd ein blaenoriaethau mewn ymgynghoriad â'n staff, cynrychiolwyr yr undebau llafur, uwch swyddogion ac aelodau o'n Hawdurdod. Er bod y ddogfen hon yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd, bydd yn cael ei hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod ein hamcanion a'n blaenoriaethau'n parhau i fod yn addas at y diben.



## Cynlluniau Gwella Blynyddol

Bob blwyddyn, fel rhan o'n proses gynllunio, rydym yn datblygu Cynlluniau Gwella Blynyddol, sy'n nodi ein hamcanion gwella blynyddol ar gyfer pob blwyddyn o'n cynllun strategol pum mlynedd. Mae ein hamcanion gwella blynyddol yn dweud wrth ein staff, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid pa fuddion fydd yn cael eu darparu ar eu cyfer dros y flwyddyn sydd i ddod.

## Asesiadau o Berfformiad Blynyddol

Erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein Hasesiad o Berfformiad Blynyddol, sy'n adrodd yn unol â'n hamcanion gwella ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae ein Hasesiad o Berfformiad Blynyddol yn dweud wrth ein staff, cymunedau a rhanddeiliaid pa ganlyniadau a buddion a ddarparwyd yn unol ag amcanion Cynllun Gwella Blynyddol y flwyddyn flaenorol. Mae ein Hasesiadau o Berfformiad Blynyddol hefyd yn nodi pa wersi rydym wedi'u dysgu a sut y caiff y rhain eu hymgorffori o fewn prosesau cynllunio a gwella yn y dyfodol

***Gallwch weld ein Cynllun Strategol, ein Cynlluniau Gwella Blynyddol a'n Hasesiadau o Berfformiad Blynyddol ar ein gwefan yn  www.tancgc.gov.uk***

## Adroddiad Gwella Blynyddol

Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar berfformiad Cynghorau Cymru, Awdurdodau Tân ac Achub a Pharciau Cenedlaethol mewn perthynas â'u gwaith cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y gwaith a wnaed gan staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn ogystal â gwaith yr arolygiaethau Cymreig perthnasol.

Mae'r adroddiad yn edrych ar y modd y mae'r Awdurdod wedi darparu a gwerthuso gwasanaethau dros y flwyddyn flaenorol a'i gynlluniau gwella ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu p'un a fydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus ar gyfer y flwyddyn ganlynol o fewn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Gellir dod o hyd i Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar ein gwefan.

# Ein Perfformiad

Dros y degawd diwethaf, trwy Gynllunio ar gyfer Gwella a Lleihau Risg, mae'r Awdurdod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau y cawsom ein galw i'w mynychu; yn ogystal â gwelliannau yn y canlyniadau i'r rhai hynny yr effeithiwyd arnynt a'r cymunedau lle maent yn digwydd. Mae ein targedau ar gyfer 2016 ymlaen wedi'u gosod er mwyn cyflawni gostyngiad realistig ond heriol dros y cyfnod nesaf o bum mlynedd.

| Dangosydd Perfformiad | Cyfartaledd 2006/7 i 2009/10 | Cyfartaledd 2010/11 i 2014/15 | % y Gostyngiad a Gyflawnwyd 2014/15 | Cyfartaledd 2015/16 i Darged 2020/21 | Gostyngiad Targed 2020/21 (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Holl Danau** FRS/RRC/S/001 (i) | 6184 | 4156 | -32.8% | 3325 | -20% |
| **Marwolaethau ac Anafiadau Oherwydd Tanau** FRS/RRC/S/002 (i) | 115 | 70 | -39.2% | 62 | -10% |
| **Galwadau Tân Diangen** FRS/RRC/S/001 (ii) | 5232 | 4626 | -11.5% | 4163 | -10% |
| **Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd yr Ymatebwyd Iddynt** FRS/RRC/S/001 (iii) | 1349 | 1065 | -21% | 958 | -10% |
| **Prif Danau** Dangosydd Sector | 2286 | 1560 | -31.7% | 1248 | -20% |
| **Tanau Damweiniol mewn Cartrefi** Dangosydd Sector | 646 | 564 | -12.7% | 479 | -15% |
| **Tanau Bwriadol** Dangosydd Sector | 3779 | 2109 | -44.2% | 1476 | -30% |
| **Tanau mewn Eiddo Annomestig** Dangosydd Sector | 377 | 260 | -17.3% | 221 | -15% |
| **Salwch** Sifftiau a gollwyd fesul Cyfwerth ag Amser Llawn | 7.6 | 8.7 | 14.5% | 6.5 | -25% |

*Ceir gwybodaeth fanylach am ein perfformiad yn ein Hasesiad o Berfformiad Blynyddol ar ein gwefan. www.tancgc.gov.uk*

# Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau

| | |
|---|---|
| GWELEDIGAETH | Bod gyda'r gorau yn y byd am ddarparu Ymateb Brys a Diogelwch Cymunedol |
| CENHADAETH | Ymgysylltu â phobl, cysylltu â hwy, eu datblygu a'u hysbrydoli i ddarparu Gwasanaeth gwych. |
| GWERTHOEDD | Gwneud y peth cywir; Trin pobl â pharch; Perfformio gyda rhagoriaeth |
| BLAENORIAETHAU | Cydweithio; Arloesedd; Gwella'r Modd y Darperir ein Gwasanaethau; Grymuso ein Staff; Gwella ein Hasedau a'n defnydd o Adnoddau; Cynaliadwyedd; Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol... | Gweithio tuag at 12 o Amcanion Corfforaethol Drafft |

# Ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

**Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2016-21 yn sicrhau y byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer ein cymunedau.**

Mae ein saith blaenoriaeth, fel yr amlinellwyd isod, yn manylu ynghylch ein hymrwymiad at gyflawni yn unol â thargedau heriol mewn amgylchedd cymdeithasol, gwleidyddol ac ariannol sy'n newid yn barhaus.

## Cydweithio

Mae ein llwyddiant yn y dyfodol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ffordd rydym yn gweithio gydag eraill. Cydnabuwn bwysigrwydd cydweithio ystyrlon ac effeithiol a'r angen i ddatblygu a chynnal mentrau cydweithredol gyda phartneriaid allweddol. Bydd cydweithio hefyd yn ategu'r broses o ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer ein cymunedau ac yn ein helpu i ddarparu ein gwasanaethau mewn ffordd well sy'n fwy costeffeithiol ac effeithlon. Dros y pum mlynedd nesaf ein nod yw cael ein cydnabod fel partner galluogi allweddol o fewn y sector cyhoeddus a phreifat ehangach.

## Arloesedd

Mae arloesedd yn hanfodol er mwyn ein galluogi i ddatblygu a chynnal Gwasanaeth sy'n diwallu anghenion ein cymunedau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bydd atebion arloesol yn holl bwysig wrth ddarparu seilwaith a fydd yn ein cynorthwyo i ddatblygu a gwella ein sefydliad. Bydd yr heriau ariannol sylweddol sy'n ein hwynebu yn gofyn i ni fod yn arloesol a mabwysiadu ffyrdd newydd o feddwl er mwyn i ni allu bod ar y blaen o ran ein hymateb brys. Rydym yn ymrwymedig i nodi ffyrdd arloesol o weithio er mwyn sicrhau bod ein cymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid yn cael y gwasanaeth gorau posibl o'u gwasanaeth tân ac achub.

## Gwella'r Modd y Darperir Gwasanaethau

Byddwn yn parhau i addasu ein gwasanaethau er mwyn ymateb i'r heriau ariannol parhaus a wynebwn. Byddwn yn gweithio i nodi ac ymateb i ofynion newydd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu Gwasanaeth sydd bob amser ar y blaen o ran datblygu'r modd y darperir gwasanaethau. Byddwn yn parhau i amrywio'r ystod o weithgareddau a mentrau a gyflawnwn er mwyn adlewyrchu risgiau ein cymunedau, ein tirweddau gwledig a threfol a'n hadnoddau naturiol.

## Grymuso ein Staff

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd diwylliant ein Gwasanaeth. Byddwn yn sicrhau y caiff ein staff eu hyfforddi i'r safonau uchaf posib a'u bod yn gallu cynnal eu cymhwysedd drwy ddysgu proffesiynol parhaus. Byddwn yn darparu llwybrau clir ar gyfer datblygu gyrfa a'r amgylchedd gwaith gorau posibl ar gyfer eu llesiant proffesiynol. Byddwn yn parhau i sicrhau bod strwythur y sefydliad yn adlewyrchu anghenion ein gwasanaeth a'n cymunedau drwy roi arferion gwaith hyblyg ar waith sy'n ategu ffordd o fyw iachus a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae cyfathrebu yn flaenoriaeth allweddol i sicrhau bod ein staff, rhanddeiliaid, cymunedau a phartneriaid yn ymwybodol o'r gwaith a wnawn, yr heriau a wynebwn a'r llwyddiant a gyflawnwn. Credwn y gallwn drosglwyddo ein negeseuon allweddol yn effeithiol drwy sicrhau bod ffocws parhaus ar addysg, ymgysylltu a chyfathrebu.

## Gwneud gwell defnydd o'n Hasedau a'n Hadnoddau

Cydnabuwn mai ein staff yw ein hased mwyaf gwerthfawr, fodd bynnag, er mwyn i'n staff fod yn effeithiol mae angen iddynt gael y cyfleusterau a'r adnoddau gorau sydd ar gael iddynt. Credwn fod yn rhaid i'n hasedau ffisegol fod yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn ategu ac ymateb i'r broses o ddarparu ein gwasanaethau ar draws canolbarth a gorllewin Cymru. Byddwn yn defnyddio ein hasedau ffisegol i weithio gyda phartneriaid lle bynnag y bo'n ymarferol er mwyn sicrhau y cânt eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, cynaliadwy ac ecogyfeillgar.

## Cynaliadwyedd

Gwyddom fod ein gweithrediadau yn effeithio ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym yn ymrwymedig i leihau unrhyw effeithiau niweidiol lle bynnag y bydd ein cyllid, gweithredoedd a'n hadnoddau yn caniatáu hynny. Rydym yn ymrwymedig i groesawu ynni adnewyddadwy i ategu ein hagenda cynaliadwyedd ac amgylcheddol. Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol yn nodi'r prif egwyddorion, cynigion a'r camau gofynnol er mwyn lleihau effeithiau amgylcheddol gweithgareddau a gweithredoedd y Gwasanaeth.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n staff, rhanddeiliaid a phartneriaid drwy fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at gyfathrebu drwy fod yn agored, yn onest, yn hygyrch ac yn atebol gyda phob cynulleidfa a dangos y lefelau uchaf posibl o uniondeb proffesiynol ar bob adeg. Byddwn yn datblygu gweithlu mwy effeithiol sy'n teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei gynnwys, ei hysbysu a'i gymell drwy ddatblygu sianeli cyfathrebu mewnol sy'n trosglwyddo ein Cynllun Strategol a'n Cynlluniau Gwella Blynyddol yn effeithiol.

## Cyfryngau Cymdeithasol

Fe'ch anogwn i gadw llygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf

**Cynllun Strategol**

2016 - 2021